| Astudiaeth Achos | Peilot Cludiant Ysgol Hafod Lon |
|---|---|




**Cynllunio'r Peilot**
Yn 2025, cytunwyd i weithredu prosiect peilot er mwyn darparu cludiant addysg yn fewnol gan yr Adran Addysg i ddarparu cludiant i Ysgol Hafod Lon mewn ymdrech i geisio lleihau costau cludiant i'n hysgolion arbennig, ynghyd â gwella'r profiad teithio i'r dysgwyr a'u teuluoedd. Ar y pryd, roedd costau cludiant i Ysgol Hafod Lon yn costio £1m yn flynyddol, a £500k i Ysgol Pendalar. Ar sail y costau hyn, cytunwyd i flaenoriaethu Ysgol Hafod Lon ar gyfer y peilot.

Prynwyd cerbydau addas, gyda mynediad hawdd ac offer cadeiriau olwyn ar y cefn. Roedd cyfanswm cost y cerbydau yn £72,000 yr un, felly cyfanswm y gost am ddau gerbyd yn £144,000.

Neilltuwyd £79,000 o gronfa ganolog i archebu dau fws mini trydan i'r perwyl yma, a llwyddwyd gyda chais grant Llywodraeth Cymru ar gyfer y £65,000 arall dan gynllun cerbydau gwyrdd, trydan glân. Buom hefyd yn llwyddiannus wrth dderbyn grant Llywodraeth y DU ar gyfer archebu a gosod pwyntiau gwefru ar y safle.

Archebwyd y cerbydau ym mis Mai 2025 a'u hanfon i gael eu trawsnewid i fysiau mini gan adeiladwr pwrpasol. Dechreuwyd ar y gwaith o osod y pwyntiau gwefru yn ystod misoedd Mehefin a Gorffennaf 2025, y mwyafrif o'r gwaith hwnnw gan dîm mewnol y Cyngor.

Cwblhawyd y gwaith adeiladu ym Medi 2025 a derbyniwyd y cerbydau yn yr Hydref. Yn ystod yr un cyfnod, hysbysebwyd am yrwyr bysiau mini a chymorthyddion teithio. Penodwyd un gyrrwr bws cymwys a dau gymhorthydd teithio.

Yn dilyn y penodiadau, darparwyd hyfforddiant cyfathrebu arbenigol, hyfforddiant yn y defnydd gorau o'r iaith Gymraeg gyda'r dysgwyr, a hyfforddiant arbenigol ar gyfer ymgyfarwyddo â'r offer priodol, sgiliau codi ac estyn ac ymwybyddiaeth o drefniadau cludiant addysg arbenigol.

Adnabuwyd dysgwyr addas ar gyfer y peilot, gan adnabod criw o ddysgwyr oedd yn byw yn eithaf agos i'w gilydd yn ardaloedd Blaenau Ffestiniog, Llan Ffestiniog a Gellilydan.

Rhoddwyd rhybudd digonol i'r gweithredwyr tacsi bod y trefniant yn dod i ben ar ddiwedd tymor yr hydref, a bu'r gweithredwyr rheiny yn ffodus i ennill cytundebau newydd eraill ar gyfer y tymor i ddilyn.

**Gweithredu'r peilot**

Cychwynnodd y peilot yn Ionawr 2026. Rhoddwyd cefnogaeth i'r peilot yn ystod y 4 wythnos cyntaf, gan gynnwys hyfforddiant, cyfathrebu gyda rhieni, mentora a chysgodi er sicrhau cymorth cyffredinol er sicrhau y byddai'r peilot yn llwyddiannus.

Yn dilyn y 4 wythnos cyntaf, gwelwyd fod y staff yn hyderus, a'r rhieni a'r dysgwyr yn fodlon gyda'r ddarpariaeth a'r holl drefniadau, ac felly mae'r cynllun wedi gweithredu'n rhwydd iawn yn dilyn y cyfnod cychwynnol hwn.

Adnabuwyd yn barod arbediad o oddeutu £55,000 eleni yn sgil gweithredu'r peilot hwn. Yn ychwanegol, mae'r bws mini a'r gyrrwr wedi bod yn rhoi cymorth ganol dydd i Ysgol Hafod Lon drwy ddarparu cludiant i wersi nofio a gweithgareddau allan o'r dosbarth. Mae hyn yn gymorth mawr i'r ysgol ac yn cyfoethogi profiadau'r dysgwyr.

Bwriedir gweithredu'r ail fws-mini ar gychwyn y flwyddyn academaidd nesaf a rhagwelir arbediad sylweddol o £130,000 yn ystod yr ail flwyddyn o weithredu.

Derbyniwyd sylwadau cadarnhaol gan y rhieni'n ddiweddar, a bwriedir anfon holiadur ansawdd allan cyn diwedd y tymor i rieni a staff yr ysgol. Dyma ddetholiad o rai o'r sylwadau rydym wedi eu derbyn eisoes:

*"mae'r gwasanaeth yn brydlon bob dydd, y staff yn gwrtais a fy mhlentyn yn edrych ymlaen at deithio bob bore. Gobeithio y bydd yn parhau'r tymor nesaf...."*

*"bydd hi yn mwynhau teithio ar y cludiant yma - mae cysondeb staff o ran eistedd yn yr un sedd, darparu adnoddau cyfathrebu addas a bod yn gyson gydag amseroedd a llwybr y daith yn sylfaen dda i weddill y diwrnod ar ei chyfer, roedd trafferth ei gael i'r tacsi ambell fore gynt!"*

**Gwerth Ychwanegol**

Yn ychwanegol i'r cludiant arferol sydd eisoes mewn lle, mae cyfleoedd i ehangu'r ddarpariaeth cludiant  er sicrhau arbedion i ysgolion, drwy gefnogi teithiau yn ystod y diwrnod ysgol e.e. gwersi nofio, cyrsiau coleg, profiad gwaith, diwrnodau cwricwlaidd ayyb, fyddai'n golygu gweithredu diwrnod llawn o gytundebau cludiant addysg yn fewnol